# Bedyddio Iesu



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Yr wythnos hon byddwn yn dysgu am  fedydd Iesu gan Ioan Fedyddiwr. Mae ein prif ddarn o'r Beibl i'w weld yn Mathew 3:13-17. Dyma rai o'r pwyntiau allweddol y byddwn yn eu harchwilio:

- Honnodd Duw mai Iesu oedd Ei Fab ac roedd yn falch ohono (Matthew 3:17)
- Iesu yw'r oen sy'n cymryd ein pechod i ffwrdd (Ioan 1:29)
- Nid oedd angen i Iesu edifarhau a chael maddeuant am nad oedd erioed wedi gwneud unrhyw beth o'i le. Ond roedd am wneud y peth iawn, ufuddhau i Dduw, a gosod esiampl. (Matthew 3:15)
- Mae'r Ysbryd Glân yn disgyn ar Iesu (Mathew 3:16). Y Drindod gyda'i gilydd.

## Canllaw Gwers

Dechreuwch trwy ofyn i'r plentyn a ydyn nhw'n cofio pwrpas bedyddio. Os oes angen, tynnwch y lluniau a gymerwyd gennych a thrafodwch fedyddio eto. Siaradwch am sut mae bedydd yn cynrychioli'r iachawdwriaeth y gallwn ddod o hyd iddi yn Iesu.

Byddai'r wers hon yn wych i'w gwneud ger afon leol, ond gallech hefyd ddod â lluniau o afon yr Iorddonen fel y gall y plant weld yr olygfa yn eu meddyliau.

Siaradwch am sut er nad oedd angen achubiaeth ar Iesu am ei fod yn ddi-bechod, fe'i bedyddiwyd i fod yn enghraifft o ufuddhau i Dduw a gwneud y peth iawn. Gofynnwch i'r plentyn beth yw enghraifft dda. Eglurwch mai enghraifft dda yw rhywun y dylid ei ddynwared. Chwaraewch gêm ‘Dilynwch Yr Arweinydd’. Cymerwch dro gyda'ch plentyn. Siaradwch am sut rydych chi'n dynwared eich gilydd yn y gêm a sut y rhoddodd Iesu enghraifft fel y gallem ei ddynwared a dysgu gwneud y peth iawn.

Tynnwch sylw at y ffaith bod Duw wedi datgan fod Iesu yn Fab iddo a'i fod yn falch ohono. Gofynnwch i'r plentyn a ydyn nhw'n gwybod beth mae'n ei olygu i fod yn falch o rywun. Eglurwch fod modd i chi deimlo'n fodlon â rhywbeth neu rywun. Trafodwch bethau sy'n eich plesio. Er enghraifft, gofynnwch i'r plentyn a ydych chi'n falch pan fyddant yn codi eu teganau neu'n gwneud eu gorchwylion. Siaradwch am sut rydych chi'n hapus neu'n fodlon pan fyddan nhw'n gwneud y pethau hyn gan mai nhw yw'r pethau iawn i'w gwneud. Eglurwch fod Iesu wedi gwneud y peth iawn ac roedd Duw yn falch ohono Ef, yn union fel rydych chi'n falch o'ch plentyn pan fyddan nhw'n gwneud y peth iawn.

Gallwch ddewis gwneud gêm drwy ofyn cwestiynau gwahanol i'ch plentyn a'u cael i nodi pethau a fydd yn eich plesio neu beidio. Nid oes rhaid i hyn fod yn gwbl ddifrifol. Dylech gynnwys cwestiynau megis, "Ydw i'n falch pan fyddwch chi'n ufuddhau i'r Beibl?" ond dylech hefyd gynnwys pethau fel, "Ydw i'n falch pan fydd gennym domatos yn ystod y cinio?" Efallai y byddwch hefyd yn siarad am bethau sy'n rhoi pleser i'ch plentyn. Os ydyn nhw'n ddigon hen, gadewch iddyn nhw ofyn cwestiynau i chi.

Gofynnwch i'ch plentyn a ydyn nhw'n gallu esbonio beth yw pechod. Eglurwch mai pechod yw anufuddhau i Dduw. Siaradwch am sut mae pechod yn staenio ein heneidiau ac na allwn eu gwneud yn lân. I ddangos, dewiswch ddarn o ddefnydd gwyn. Dywedwch wrth y plentyn fod y defnydd yn cynrychioli ein heneidiau. Soniwch am bechodau rydych chi neu'ch plentyn wedi'u cyflawni. Wrth i chi roi enghreifftiau,rhwbiwch rywfaint o faw i mewn i’r defnydd. Parhewch i wneud y defnydd yn frwnt ac eglurwch fod pechodau'n gwneud ein heneidiau’n frwnt yn union fel mae baw ‘ n gwneud y defnydd yn frwnt. Unwaith y bydd y defnydd yn frwnt iawn, gofynnwch i'r plentyn ei lanhau gyda'i ddwylo'n unig. Eglurwch yn union fel nad yw eu dwylo'n gallu glanhau'r baw, allwn ni ddim glanhau ein heneidiau. Golchwch eich dwylo a rhoi’r defnydd  yn y peiriant golchi. Pan fyddwch chi'n ei dynnu allan yn lân (am y rheswm hwn peidiwch â defnyddio unrhyw beth i drochi’r defnydd a fydd yn staenio'n barhaol), siaradwch am sut, yn union fel mae dŵr a sebon yn glanhau'r defnydd, dim ond Iesu all ein gwneud ni'n lân.

Siaradwch am sut y disgynnodd yr Ysbryd Glân ar Iesu. Eglurwch bod hyn wedi dangos bod y Drindod gyfan yn falch o Iesu.

Trafodwch ffyrdd y gallwn blesio Duw. Diolchwch i Iesu am fod yn esiampl dda i ni ei dilyn. Gofynnwch Iddo eich helpu bob amser i ddilyn Ei esiampl dda.

© 2022 truewaykids.com



Cyn gynted ag y daeth Iesu allan o'r dŵr, digwyddodd rhywbeth rhyfeddol.

Daeth yr Ysbryd Glân i lawr o'r Nefoedd fel colomen hardd a glanio ar Iesu .Siaradodd Duw o'r Nefoedd. "Dyma fy Mab ac rwy'n Ei garu. Rwy'n falch iawn ohono."






Pan oedd Iesu'n dri deg oed, roedd yn gwybod ei bod hi'n bryd dechrau ar y gwaith arbennig roedd Duw wedi ei roi iddo.
Y lle cyntaf yr aeth Iesu oedd i weld ei gefnder Ioan ar lan Afon yr Iorddonen.
Roedd Ioan yn brysur yn pregethu ac yn dweud wrth bobl fod angen iddynt edifarhau a chael eu bedyddio.



Pan welodd Ioan Iesu pwyntiodd ato, a dweud wrth bawb, "Edrychwch, Oen Duw, sy'n cymryd pechod y byd i ffwrdd!"

Roedd Ioan yn gwybod mai'r peth pwysicaf y gallai ei wneud oedd cyfeirio pobl at Iesu.





Doedd Ioan ddim yn gallu credu'r peth pan ofynnodd Iesu am gael ei fedyddio. Gwyddai  Ioan nad oedd Iesu erioed wedi pechu.

Ond dywedodd Iesu wrth Ioan ei bod hi'n iawn iddo gael ei fedyddio am ei fod eisiau dangos i bawb beth oedd y peth iawn i'w wneud..

Felly, cytunodd Ioan a bedyddiodd Iesu yn Afon yr Iorddonen.

# Gêmau a Gweithgareddau

## Clymu Careiau

Mae dysgu clymu careiau yn sgil echddygol anodd i'r rhan fwyaf o blant. Nid yw'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol tan rhwng pump a saith oed. Serch hynny, gallwch ganiatáu i'ch plentyn roi cynnig ar ymarfer clymu clymau. Mae llawer o adnoddau ar gael i'w prynu, ond gallech hefyd roi pâr o esgidiau iddynt chwarae gyda nhw. (Gwnewch yn siŵr eich bod yn eu goruchwylio).

Siaradwch am sut roedd Ioan Fedyddiwr yn adnabod Iesu'n arbennig a dywedodd nad oedd hyd yn oed yn deilwng i glymu careiau Iesu.





## Dilynwch yr Arweinydd

Dewiswch yn gyntaf pwy fydd yr arweinydd.Dylai pawb arall sefyll mewn llinell y tu ôl iddynt. Dylai'r arweinydd symud o amgylch yr ystafell yn gwneud gwahanol weithgareddau. Cerdded, neidio, dawnsio, dwylo yn yr awyr, clapio ac yn y blaen.

Rhaid i bawb arall gopïo'r arweinydd. Siaradwch am sut y daeth Iesu i osod esiampl i ni a sut y dylem geisio bod yn debycach Iddo.

## Croesi afonydd

Gwnewch afon ar y llawr gan ddefnyddio papur neu dâp. Rhowch ychydig o gardbord i'ch plant a gofynnwch iddyn nhw groesi'r afon heb wlychu. Ar gyfer plant iau, gallwch eu helpu drwy symud y grisiau cardbord ar eu cyfer.

Siaradwch am sut aeth Iesu i mewn i'r afon gyda Ioan i gael ei fedyddio a gwneud ewyllys Duw.



© 2022 truewaykids.com

# Pa bethau sy'n plesio Duw?














© 2022 truewaykids.com

# Olrhain y cwlwm

© 2022 truewaykids.com





# Pa ochr sydd â'r nifer lleiaf?



© 2022 truewaykids.com

# Crefft y golomen



## Yr hyn sydd ei angen arnoch:

Templed (ar gyfer y canlyniadau gorau argraffu ar gerdyn)
Taflen o bapur
Glud
Siswrn
Creon neu bensil oren neu felyn
Llinyn

https://youtu.be/50Zsg6qva84

## Beth i'w wneud:



Torrwch siâp y golomen allan o'r templed. Gludwch y ddwy ochr at ei gilydd. Torrwch yn ofalus ar draws llinel yrl adain.



Plygwch ddalen o bapur fel acordion . Tua phob 2 cm. Rhowch drwy'r golomen i ffurfio adenydd. Gwnewch yn siŵr fod y plygion yn gyfartal.



Ychwanegwch rywfaint o liw i'r big a rhoi llinyn i'w hongian.

© 2022 truewaykids.com

# Templed Crefft y Golomen





© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com

© 2022 truewaykids.com





© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com

# Amser Addoli

Awgrymwch ganeuon addoli. Heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids.
Fideos YouTube i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



Bedyddio Iesu - Stori (TruewayKids)

https://youtu.be/S0jM7fpd5pY

You are my all in all

https://youtu.be/q_FtEzxu5J8

More Like Jesus

https://youtu.be/zuB4wSYM5Yg

More and More Like Jesus

https://youtu.be/mwD02bByBew



# Gweddi

Diolchwch i Dduw am anfon Iesu i'n hachub a bod yn esiampl i ni.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i'w blesio Ef trwy ufuddhau iddo a'i ddilyn Ef.

## Wythnos nesaf

### Iesu'n cael ei demtio

Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, cofrestrwch i dderbyn gwers yn y dyfodol drwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2022 truewaykids.com